**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**

**Fforwm Cyllideb Ysgolion**

**Dydd Mercher 8 Mehefin 2022**

**AELODAU'N BRESENNOL:** Trevor Baker, y Cynghorydd Rhiannon Birch, David Blackwell, Chris Britten, Vince Browne, Cedric Burden, Mairead Canavan, Norman Craggs, Tim Exell, Mari Gibbs, Rhodri Jones, Rhys Angell Jones, Lorraine Lancaster, Sian Lewis, Martin Price, Paula Vaughan, Terry Vaughan-Taylor, Sarah Jenkins Welch

**Hefyd yn bresennol:** Matt Bowmer, y Cynghorydd Lis Burnett, Rachel Cox, Lisa Lewis, James Mansfield, Nicola Monckton, Lisa Soderland

| **Eitem** | **Mater** | **Trafodaeth** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau gan Russell Bailey, Trevor Brown, Matt Gilbert, Ceri Hoffrock. | |
| 2. | Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>Materion yn codi | Cytunwyd fel cofnod cywir.<br><br>**<u>Cais am gyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg</u>** Oherwydd y pandemig a'r etholiad, ni chafwyd cyfle o hyd i gyfarfod â'r Gweinidog Addysg.<br><br>**<u>Fforwm Cyllideb i gyflwyno yn y cabinet</u>** – TB i drafod gyda'r Cynghorydd Lis Burnett a'r Cynghorydd Rhiannon Birch y wybodaeth sy'n ofynnol yn y Cabinet ac amserlenni priodol. Tybir y bydd y Cabinet eisiau cael y wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd cynlluniedig o falansau ysgolion. | TB |
| 3. | Diweddariad ar aelodaeth a chyfansoddiad y Fforwm Cyllideb | Mynychodd y Cynghorydd Lis Burnett i esbonio cyfansoddiad y weinyddiaeth newydd. Y Cynghorydd Lis Burnett yw Arweinydd Gweithredol y Cyngor a'r Cynghorydd Rhiannon Birch yw'r Aelod Cabinet dros Addysg, (teitl llawn - Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Esboniodd y Cynghorydd Lis Burnett y bydd yn mynychu'r cyfarfodydd y bydd yn derbyn gwahoddiad iddynt i drafod y gyllideb yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd y Cyngor. Diolchodd y Fforwm i'r Cynghorydd Lis Burnett am ei chefnogaeth i'r Fforwm Cyllideb a'i hymrwymiad i addysg dros y blynyddoedd.<br><br>Cyflwynodd y Cynghorydd Rhiannon Birch ei hun yn ffurfiol fel yr Aelod Cabinet Addysg newydd, gan rannu ei chefndir yn y maes addysgu a'i nod o gefnogi'r Fforwm Cyllideb wrth symud ymlaen. Croesawodd y Fforwm y Cynghorydd Rhiannon Birch fel yr Aelod Cabinet newydd.<br><br>Mae Ceri Hoffrock wedi rhoi'r gorau i fod yn gynrychiolydd ar y Fforwm Cyllideb ar gyfer ysgolion cynradd yn y Fro wledig. NM i gysylltu â Chadeirydd Clwstwr y Fro Wledig i ofyn am gynrychiolydd cynradd arall.<br><br>Mae Russell Bailey wedi rhoi'r gorau i fod yn gynrychiolydd y llywodraethwyr ar y Fforwm Cyllideb. Mae John Sparks wedi dweud y bydden nhw'n ceisio cynrychiolydd newydd yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas Llywodraethwyr y Fro.<br><br>Diolchodd y Fforwm i Ceri a Russell am eu cyfraniad i'r Fforwm Cyllideb.<br><br>Mynychodd Matt Bowmer y Fforwm Cyllideb i gyflwyno ei hun fel Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 newydd y Cyngor. Bydd Matt yn mynychu cyfarfod y Fforwm Cyllideb mis Tachwedd fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.<br><br>Mae Pennaeth wedi codi pryder ynghylch canran yr ysgolion uwchradd sydd â chynrychiolaeth ysgol ar y fforwm o gymharu â'r un ganran ar gyfer ysgolion cynradd. Mae aelodaeth y Fforwm Cyllideb yn dilyn y cyfansoddiad sy'n gofyn am gynrychiolaeth cynradd ac uwchradd o<br>• Bob clwstwr daearyddol<br>• Cyfrwng Cymraeg<br>• Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir / gwirfoddol a reolir<br>Nodwyd, gan fod llai o ysgolion uwchradd, y bydd canran uwch o gynrychiolaeth uwchradd os yw'r fforwm am sicrhau bod yr holl feysydd hyn yn cael eu cynrychioli. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nodwyd hefyd, o ran disgyblion yn gyffredinol, fod canran y gynrychiolaeth uwchradd a chynradd yn gyfartal. | |
| 4. | Balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2022 | Cyflwynodd NM adroddiad ar sefyllfa balansau ysgolion a ddygwyd ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 a thaenlen yn nodi balansau ysgolion unigol dros yr wyth mlynedd diwethaf.<br><br>Rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2019, amrywiodd y balansau ysgolion a ddygwyd ymlaen rhwng £2.3M a £2.9M, nes iddynt ostwng i £839k erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20. Ym mis Ebrill 2020, roedd pryderon gwirioneddol y gallai balansau ysgolion ddisgyn i sefyllfa diffyg cyffredinol erbyn diwedd y flwyddyn 2020/21.<br><br>Fodd bynnag, digwyddodd newid o ganlyniad i bandemig Covid 19 ym mlwyddyn ariannol 2020/21 gan arwain at falansau ysgolion yn codi gan £5.47M mewn blwyddyn yn unig i £6.3M. Achoswyd y cynnydd hwn mewn balansau yn 2020/21 gan ddau ffactor, yn gyntaf yr arbedion o gau ysgolion oherwydd y pandemig, ac yn ail, cynnydd mewn incwm grant gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22, roedd balansau ysgolion wedi codi gan £6.46M arall i £12.77M, a ysgogwyd yn bennaf gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a oedd ar gael i ysgolion.<br><br>Nodwyd y canlynol<br>• Mae gan 91% o ysgolion cynradd a meithrin falans a ddygwyd ymlaen o fwy na £50k<br>• Mae gan bob ysgol uwchradd, arbennig a 3-9 falans a ddygwyd ymlaen o dros £100k<br>• Ni wnaeth unrhyw ysgol alldroi'r flwyddyn ariannol mewn diffyg (er bod un ysgol yn agos iawn at wneud hynny)<br>• Mae gan 95% o'r holl ysgolion falans a ddygwyd ymlaen o dros 5% o gyfran cyllideb<br>• Mae gan 75% o'r holl ysgolion falans a ddygwyd ymlaen o dros 10% o gyfran cyllideb<br><br>Mae pob ysgol sydd â balans a ddygwyd ymlaen o dros 5% o gyfran cyllideb wedi cael e-bost gyda ffurflen wag i'w chwblhau â'r teitl "Defnydd Cynlluniedig o Falansau". Bydd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn ofynnol i bob un o'r ysgolion hyn lenwi'r ffurflen yn nodi sut y bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio dros y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol nesaf. Rhaid cyflwyno pob ffurflen erbyn 30 Mehefin 2022. Mae TB wedi cynghori ysgolion i gynnwys cymaint o fanylion â phosibl.<br>Nodwyd bod<br>• £6.7M ychwanegol mewn grantiau wedi'i ddyfarnu i ysgolion ym mlwyddyn ariannol 2021/22, gyda £4.2M wedi'i neilltuo ar gyfer adfer wedi Covid<br>• Mae ysgolion wedi ei chael yn anodd recriwtio staff ychwanegol gydag arian grant oherwydd prinder y staff cyflenwi ac asiantaeth sydd ar gael<br>• Er gwaethaf balansau gormodol a gronnwyd drwy gyfnod pandemig Covid 19, mae ysgolion yn cael anawsterau wrth gydbwyso cyllidebau yn ystod y flwyddyn ac maent yn dibynnu ar falansau a ddygwyd ymlaen i gydbwyso cyllidebau cyfredol. Felly, nid yw llawer o ysgolion mewn sefyllfa gyllidebol gynaliadwy | |
| 5. | Costau Ynni Cynyddol i ysgolion | Mae'r Fforwm Cyllideb wedi gofyn i'r Cyngor roi amcangyfrif ar gyfer y cynnydd mewn biliau ynni a ragwelir ar gyfer y blynyddoedd nesaf o ystyried yr argyfwng prisiau ynni presennol ledled y wlad er mwyn galluogi ysgolion i gynllunio'n ariannol ar gyfer y pwysau hyn.<br><br>Mae NM eisoes wedi gofyn am wybodaeth gan y tîm ynni a fydd yn cael ei rhoi yng nghyfarfod nesaf y fforwm cyllideb.<br><br>Diweddarodd LL y fforwm ar y gwaith datgarboneiddio a chynaliadwyedd a wnaed gan y Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif. LL i drefnu cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb.<br><br>Dywedodd LL y gallai'r cyllid Salix cyfyngedig sydd ar gael i ysgolion fod yn gyfyngedig. Mae'r cynllun Salix yn cynnwys benthyciad di-log ar gyfer gwaith cyfalaf fel paneli solar a goleuadau ynni i leihau costau ynni ac allyriadau. Ysgolion i gysylltu â Mark Biernacki neu Ben Winstanley yn yr adran eiddo am wybodaeth. | <br><br><br><br><br><br>NM<br><br><br><br>LL |

**6. Diweddariad grantiau 2022/23**

Cyflwynodd NM y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o ran grantiau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

**<u>Grant Caledi Covid</u>**

Daeth y Grant Caledi Covid i ben ym mis Mawrth 2022. Pan fo asesiad risg yn penderfynu na all aelod beichiog o staff (ar ôl 26 wythnos) fod yn yr ysgol, mae cyllid canolog ar gael i dalu am gostau ôl-lenwi.

**<u>Grant Datblygu Disgyblion (GDD)</u>**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu dyraniad grant y Grant Amddifadedd Disgyblion i Gonsortiwm Canolbarth y De eto. Ar gyfer paratoi cyllidebau, mae ysgolion yn defnyddio dyraniadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion y flwyddyn flaenorol fel amcangyfrif.

**<u>Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol</u>**

Mae Consortiwm Canolbarth y De (CCD) wedi cyhoeddi dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol ar wefan CCD ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Mae fformiwla ariannu Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol yn cael ei bennu gan y CYBLD 2022. Cyfrifir y fformiwla fel a ganlyn

| | Cyfandaliad | Cyfradd Disgybl |
|---|---:|---:|
| Meithrin | £3,615 | £39.40 |
| Cynradd | £6,790 | £39.40 |
| Canol | £14,899 | £39.40 |
| Uwchradd | £14,899 | £39.40 |
| Arbennig | £11,284 | £123.63 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | £11,284 | £123.63 |
| | | |
| Cyfnod Sylfaen | dd/b | £548.10 |
| 14-19 | dd/b | £114.22 |

**<u>Dysgu Carlam (Recriwtio, Codi Safonau ac Adfer)</u>**

Mae cyfanswm o £1.493M wedi'i ddyrannu i ysgolion o dan y Grant Dysgu Carlam ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 i gefnogi agenda "Recriwtio, Codi Safonau ac Adfer" y Gweinidogion yn dilyn y pandemig. Ebostiwyd dyraniadau unigol i ysgolion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **<u>Cyllid Adfer a Dilyniant Dysgwyr ôl-16</u>**<br>Dyrannwyd £400,787 i ysgolion â chweched dosbarth i helpu ag adferiad dysgwyr ôl-16 yn dilyn y pandemig. Ebostiwyd dyraniadau unigol i ysgolion.<br><br>**<u>Cyllid Pontio Ôl-16</u>**<br>Dyrannwyd £78,649 i ysgolion i gefnogi dysgwyr ym mlynyddoedd 11, 12 a 13 i symud ymlaen i'w cyfnod addysg nesaf. Ebostiwyd dyraniadau unigol i ysgolion.<br><br>**<u>Cynllun Ariannu Athrawon Newydd Gymhwyso</u>**<br>Mae'r grant ANG wedi'i ymestyn tan ddiwedd tymor yr haf, cynghorir ysgolion i ddefnyddio'r Grantiau Dysgu Carlam i gadw staff lle bo hynny'n bosibl.<br><br>**<u>Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod</u>**<br>Daw'r grant hwn i ben ym mis Awst 2022.<br><br>**<u>Grant Dysgu Proffesiynol</u>**<br>Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi nodi y bydd y grant hwn ar gael eleni, ond nid yw lefel y cyllid wedi'i chyfleu. I'w gadarnhau.<br><br>**<u>Cyllid system ADY newydd</u>**<br>Mae'r grant hwn o £179,207 wedi'i ddyfarnu i ysgolion i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r ddeddf ADY yn raddol. Ebostiwyd dyraniadau i ysgolion. | |
| 7. | Ystadegau Llywodraeth Cymru – Gwariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar Ysgolion | Cyflwynodd DB ystadegau Llywodraeth Cymru 2021/22 – **Gwariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar Ysgolion** i'r fforwm.<br><br>Nodwyd bod disgyblion ym Mro Morgannwg yn parhau i gael eu hariannu ar y gyfradd isaf yng Nghymru, sef £726 y disgybl sy'n is na chyfartaledd Cymru ac yn sylweddol is nag Awdurdodau cyfagos megis Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd a Chaerdydd; neu Awdurdodau Lleol sydd â nodweddion tebyg fel Wrecsam.<br><br>Dywedodd NM nad yw ystadegau 2022/23 ar gael eto. NM i'w dosbarthu cyn y cyfarfod nesaf. | NM |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. | Rhaglen waith y Fforwm Cyllideb ar gyfer 2022/23 | Penderfynwyd y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer Rhaglen Waith y Fforwm Cyllideb ar gyfer 2022/23<br>• Her Ariannu Llywodraeth Cymru i geisio cyllid addysg deg fesul disgybl ledled Cymru<br>• Parhau â'r adolygiad o gyllid ADY i sicrhau bod cyllid ADY yn cael ei ddosbarthu'n deg i ysgolion ym Mro Morgannwg | |
| 9. | Unrhyw Fater Arall | **Cyflwyno Cyllidebau Ysgolion 2022/23**<br>Atgoffwyd y fforwm bod rhaid cyflwyno cyllidebau ysgolion i'r tîm Cyllid Dysgu a Sgiliau erbyn 30 Mehefin 2022.<br><br>**Y Cyfarfod Nesaf**<br>14 Medi 9.30am, Microsoft Teams | |